

Ymateb COVID-19

Rhestr Wirio i Fusnesau

Rhestr wirio i weithredu eich
safle'n ddiogel



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Y tu allan i'ch safle busnes

Gwiriwch
le | Na | Amh.

Ystyried cynnig dewisiadau eraill i bobl sy'n ymweld â'ch siop, megis gwasanaeth 'clicio a chasglu' neu wasanaeth apwyntiad yn unig.	
Gosod arwyddion clir i egluro eich mesurau cadw pellter cymdeithasol i gwsmeriaid a'u hatgoffa i beidio â mynd i mewn os oes ganddynt symptomau COVID-19.	
Annog cwsmeriaid i siopa ar eu pennau eu hunain os oes modd.	
Atgoffa cwsmeriaid sy'n dod â phlant eu bod yn gyfrifol am eu goruchwyllo bob amser ac y dylent ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol.	
Sicrhau y defnyddir un fynedfa ac un allanfa, sydd ar wahân os oes modd.	
Cadw drysau mynedfeydd ac allanfeydd ar agor, os oes modd.	
Ystyried defnyddio staff ychwanegol neu swyddogion diogelwch, os oes angen, i helpu i reoli'r ciw. Os yw'r defnydd o seddau y tu allan sy'n gysylltiedig â'ch busnes yn cael ei ganiatáu'n gyfreithiol, mae'n rhaid ei gynnwys yn eich asesiad risg COVID-19 ac mae'n rhaid i'r mesurau rheoli a nodwyd gennych o ran cadw pellter cymdeithasol gael eu rheoli'n effeithiol.	
Asesu maint unrhyw le allanol sydd ar gael ar hyd ffryntiad eich safle, a chyfrifo uchafswm nifer y cwsmeriaid a all giwio'n ddiogel gan ganiatáu'r pellter a argymhellir rhyngddynt.	
Os oes system giwio y tu allan gan safleoedd cyfagos hefyd dylid siarad â nhw i sicrhau nad yw busnesau cyfagos yn effeithio ar eich cynlluniau ciwio chi a'u bod yn ddiogel i gwsmeriaid.	
Darparu marciau ar y palmant megis llinellau sialc neu dâp y tu allan i'ch siop i helpu i gadw'r pellter gofynnol mewn ciwiau.	
Ystyried darparu rhwystrau neu raff ar gyfer manau ciwio er mwyn sicrhau bod pobl yn aros yn y man ciwio penodol.	
Monitro'r defnydd o'r manau ciwio i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel, ystyried defnyddio staff ychwanegol neu swyddog diogelwch.	



Y tu mewn i'r safle busnes - hylendid a glanhau

Gwiriwch
le | Na | Amh.


<p>Asesu maint y safle a'i gynllun, fel y gallwch gyfrifo uchafswm nifer y cwsmeriaid yn y siop a'r gwahanol fannau ynddi, ar un adeg. Ystyried ble mae angen ichi leoli staff i helpu i reoli niferoedd.</p>	
<p>Darparu manau glanhau o flaen y siop a ddylai gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• hylif diheintio dwylo a chlytiau diheintio; neu• chwistrellydd a hancesi papur ar gyfer handleni trolïau/basgedi.	
<p>Glanhau a diheintio'n amlach. Dylid rhoi sylw i offer a rennir ac arwynebau y cyffyrddir â nhw â'r dwylo, gan gynnwys arwynebau gwaith, byrddau, cadeiriau, switshis, dolenni drysau, botymau lifftiau, bysellbadau, rheiliau grisiau/grisiau symudol, plattiau gwthio ar ddrysau, toiledau, peiriannau tywelion dwylo, tapiau ac ati.</p>	
<p>Sicrhau eich bod yn defnyddio hylif diheintio sy'n effeithiol yn erbyn 'feirysau gorchuddiedig' megis COVID-19 a bod y staff yn cadw at yr amser cyswllt cywir a'r cyfraddau gwanhau. Ystyrir bod y rhai sy'n cydymffurfio â BSEN 14476 yn effeithiol a dylid nodi'r rhif hwn ar y label neu dylech wirio hyn drwy gysylltu â'ch cyflenwr cynnyrch glanhau.</p> <p><i>Mae rhagor o gyngor ynghylch dewis hylif diheintio dwylo a diheintyddion arwynebau yn ystod pandemig coronafeirws ar gael yma: https://www.hse.gov.uk/coronavirus/hand-sanitiser/choosing-hand-sanitiser-surface-disinfectant.htm</i></p> <p><i>I gael rhagor o wybodaeth am lanhau a chael gwared ar ddeunyddiau glanhau ewch i https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings</i></p>	
<p>Dylid rhoi ystyriaeth i berygl bacteria legionella a sut i ddiogelu staff wrth fflysio/cli-rïo systemau dŵr poeth ac oer.</p> <p><i>Mae rhagor o wybodaeth am reoli legionella mewn systemau dŵr ar gael yma https://www.hse.gov.uk/legionnaires</i></p>	



Y tu mewn i'r safle busnes - cadw pellter cymdeithasol

Gwiriwch
le | Na | Amh.


Cynyddu'r awyru ar y safle drwy agor drysau a ffenestri os yw'n bosibl ac yn ddiogel gwneud hynny.	
Defnyddio marciau llawr y tu mewn i hwyluso cydymffurfio â'r cyngor ar gadw pellter cymdeithasol, yn enwedig yn y manau mwyaf poblog.	
Gosod arwyddion clir ym mhob rhan o'r siop yn atgoffa cwsmeriaid o'r mesurau cadw pellter cymdeithasol ac yn gofyn iddynt ddilyn y rheolau hyn.	
Adolygu cynllun y siop i sicrhau bod yr eiliau/rhodfeydd mor glir â phosibl er mwyn sicrhau'r pellter cymdeithasol a argymhellir, gan gynnwys cael gwared ar osodion hyrwyddo os oes angen. Creu system 'unffordd', drwy gau eiliau a defnyddio arwyddion i ddweud wrth y cwsmeriaid am symud yn yr un cyfeiriad yn ddi-dor.	
Gwneud cyhoeddiadau'n rheolaidd os oes modd, er mwyn atgoffa staff a chwsmeriaid i ddilyn y cyngor ar gadw pellter cymdeithasol.	
Gosod rhwystrau wrth fannau talu gan ddefnyddio plastig hyblyg i ddarparu rhwystr i'r rhai sy'n gweithio wrth y manau talu. Fel arall, dylid creu parth gwahardd o amgylch y manau talu a gosod hysbysiad 'Sefwch y tu ôl i'r llinell pan fydd rhywun yn gweini ar-noch' i'r cwsmeriaid.	
Defnyddio staff i reoli llif cwsmeriaid i'r desgiau talu.	
Pan fydd manau talu yn agos at ei gilydd, ystyried cau bob yn ail fan talu. Asesu a yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer manau talu hunanwasanaeth hefyd.	
Gadael drysau nad ydynt yn hanfodol ar agor i leihau nifer y bobl sy'n cyffwrdd â nhw. Nid yw hyn yn berthnasol i ddrysau tân.	
Dylid trefnu manau casglu archebion i gwsmeriaid i sicrhau bod modd cadw'r pellter a argymhellir, naill ai drwy farciau llawr neu drwy gyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sy'n cael aros ar y tro.	



Y tu mewn i'r safle busnes - cadw pellter cymdeithasol (parhad)

Gwiriwch
le | Na | Amh.


Ystyried cyfyngu ar nifer y cwsmeriaid mewn manau caeedig, megis lifftiau.	
Tynnu hyrwyddiadau lle mae cwsmeriaid yn debygol o ymgynnull, megis arddangos cyn-nyrch.	
Ystyried ailstocio/ailgyflenwi y tu allan i oriau agor y siop yn unig er mwyn lleihau tag-feydd. Os bydd yn rhaid ailgyflenwi yn ystod yr oriau agor, dylid asesu sut y gellir gwneud hyn heb beryglu diogelwch gweithwyr neu gwsmeriaid, e.e. defnyddio rhwystrau i gau'r eil a sicrhau bod staff ar gael i hôl eitem i gwsmeriaid, a dim ond cael cynifer o staff yn y man hwn sy'n golygu bod modd cadw at y pellter a argymhellir.	
Annog dulliau talu heb arian parod.	
Bysellbadau/sgriniau cyffwrdd desgiau talu hunanwasanaeth – Os bydd y rhain yn dal i gael eu defnyddio, mae'n rhaid i aelod o staff fod ar gael i sychu'r manau hyn yn rheolaidd. Yn ddelfrydol, bob tro ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Cau'r safle os bydd yn mynd yn rhy brysur i reoli'r trefniadau o ran cadw pellter cymdeithasol yn effeithiol.	
Ystyried pa gamau fydd yn cael eu cymryd gan reolwyr a staff os nad yw cwsmeriaid yn dilyn y mesurau cadw pellter cymdeithasol.	



Y tu mewn i'r safle busnes - ystafelloedd newid, seddau cwsmeriaid a manau cymorth arbennig

Gwiriwch
le | Na | Amh.

Ystyried cadw ystafelloedd newid ar gau. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid ichi sicrhau bod cydweithiwr yno bob amser i sicrhau bod y canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn.	
Os oes angen cyngor/cymorth arbenigol ar gwsmeriaid yn y siop, dylid sicrhau bod gan y gweithwyr sy'n rhoi'r cyngor safle sydd wedi'i ddynodi'n glir, yn ddelfrydol gyda rhwystr diogel fel sy'n cael ei ddarparu wrth y manau talu.	
Gwaredu neu gyfyngu ar seddau cwsmeriaid yn y siop. Os darperir seddau, dylid gadael y bylchau priodol rhyngddynt.	
Os ydych yn darparu nwyddau yn y siop i gwsmeriaid roi cynnig arnynt cyn eu prynu e.e. teledu, clustffonau, cyfrifiaduron, bydd yn rhaid eu gosod fel bod modd dilyn y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol.	
Ystyried a yw'n well i staff arddangos y rhain yn hytrach na bod cwsmeriaid yn cyffwrdd â'r eitemau neu dylid darparu hylif diheintio dwylo yn y manau hyn.	
Peidio â chynnig y gwasanaethau sy'n gofyn am ryngweithio uniongyrchol â chwsmeriaid megis rhoi cyngor, bariâu ewinedd neu siopa personol.	
Os bydd siopau'n dewis peidio â helpu cwsmeriaid i gludo eitemau mawr e.e teledu 60" i'w car, awgrymir eu bod yn tynnu sylw'r cwsmer at hyn cyn iddynt brynu'r eitem. Os yw siopau'n darparu'r gwasanaeth hwn dylent ddarparu mesurau diogelu addas a chyngor er mwyn gwneud hyn yn ddiogel.	



Y tu mewn i'r safle busnes - caffis a thoiledau

Gwiriwch
le | Na | Amh.

Ystyried a yw'n ddiogel cadw toiledau cwsmeriaid ar agor neu a ddylai'r rhain fod ar gael ar gais. Os ydynt ar agor, dylai'r gwaith glanhau rheolaidd gynnwys manau y mae llawer o bobl yn cyffwrdd â nhw megis dolenni, handlenni fflysio toiledau, tapiau ac ati.	
Dylai cyfleusterau newid cewynnau fod ar gael, ond dylid ystyried pa mor aml maent yn cael eu glanhau.	
Mae caffis a bwytai ar gau hyd nes y rhoddir gwybod fel arall a dylid eu cau'n ddiogel er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn defnyddio eu seddau.	



Y tu mewn i'r safle busnes - cyfarfodydd, ystafelloedd gorffwys/staff a ffreuturau staff

Gwiriwch
le | Na | Amh.

Dylid cynnal cyn lleied o gyfarfodydd â phosibl a'u cynnal yn ddiogel gan ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol, a dylai desgiau gael eu glanhau ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.	
Dylai ystafelloedd bach lle nad oes modd cadw'r pellter a argymhellir gael eu cyfyngu i un person gan arddangos hysbysiadau ar y drws a glanhau desgiau bob tro ar ôl iddynt gael eu defnyddio.	
Mae'n rhaid cyngori gweithwyr sy'n defnyddio manau ysmegu i gadw'r metrau ar wahân a argymhellir drwy arddangos hysbysiadau yn y man hwn.	
Dylid atgoffa staff i olchi eu dwylo'n rheolaidd gan ddefnyddio sebon a dŵr am 20 eiliad cyn ac ar ôl bwyta.	
Dylai hysbysiadau yn hyrwyddo hylendid dwylo a chadw pellter cymdeithasol gael eu gosod mewn lle amlwg yn y manau hyn.	
Darparu hylif diheintio dwylo ar bwys mynedfeydd/allanfeydd.	
Cyflwyno rota ar gyfer amseroedd egwyl estynedig neu wahanol i osgoi cael gormod o bobl yn yr un man.	
Gadael bylchau rhwng cadeiriau a byrddau drwy farcio 'peidiwch â defnyddio'	
Symud soffas o fannau egwyl. Glanhau a diheintio'n rheolaidd arwynebau y mae pobl yn cyffwrdd â nhw'n aml	



Y tu mewn i'r safle busnes - manau derbyn nwyddau

Gwiriwch
le | Na | Amh.

Wrth dderbyn nwyddau, sicrhau bod yr holl ganllawiau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn. Cadw'r pellter a argymhellir bob amser lle bo hynny'n bosibl. Gall marciau ar y llawr helpu staff a gyrwyr dosbarthu i wneud hyn.	
Sicrhau bod y gyrrwr dosbarthu wedi cael gwybodaeth am eich mesurau cadw pellter cymdeithasol sydd ar waith gan aelod o staff.	
Dylai'r holl yrwyr dosbarthu olchi eu dwylo ar ôl dod i mewn i'r adeilad.	
Dylai'r holl weithdrefnau iechyd a diogelwch presennol barhau i fod ar waith a chael eu dilyn bob amser wrth ddadlwytho.	
Sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu golchi eu dwylo'n rheolaidd.	



Mae'n bwysig bod unrhyw rai o'r mesurau a roddir ar waith yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid a chydweithwyr yn eu deall ac yn cydymffurfio â nhw.